**GOLYGFA 1**

**MEWN - YSGOL (YSTAFELL CHWECHED) - DYDD**

**(EFAN, ROBBIE, GWAWR)**

GWAWR, ROBBIE AC OWAIN WRTHI'N PARATOI PANED PAN FO EFAN YN DOD DRAW.

**EFAN**

Iawn? Dwi bron a thagu isio coffi.

**ROBBIE**
(YCHYDIG RHY AWYDDUS I BLESIO)

A fi, angen rwbath i gadw fi'n effro cyn gwers technoleg!

**EFAN**

Dwi angen rwbath i gadw fi'n effro 'fyd... nath yr awyren lanio yn Manceinion ben bora a dwi heb gysgu ers hynny.

ROBBIE'N IMPRESSED...

**ROBBIE**

Robbie dwi gyda llaw.

**EFAN**

Efan.

**ROBBIE**

Croeso. Pa ysgol oeddat ti o'r blaen?

**EFAN**

Bryn Hebog.

YR HOGIA'N GWNEUD EU PANEIDIAU AC EFAN YN TRIO BOD YN GYFEILLGAR.

**EFAN**

Welsoch chi gêm Barca neithiwr?

**ROBBIE**
(WEDI SYNNU)

Be', dyna lle oedda chdi neithiwr? Sbaen?

**EFAN**

Na. Dubai. Pel-droed di'n gem i, ond oedd y stadiwm rygbi sevens werth 'i weld 'fyd. *

**ROBBIE**

Well gen i ffwti hefyd er dwi'n chwara dipyn o'r ddau. *
*

**EFAN**
(YN TROI AT GWAWR)
Ti'n un am chwaraeon? *

MAE GWAWR WEDI BOD YN YFED EI PHANAD A DARLLEN EI LLYFR.

**GWAWR**

Sori?

**EFAN**

Ti'n mwynhau chwaraeon?

**GWAWR**

Yndw, ond fyswn i ddim yn llygru'r amgylchedd efo mwg awyren jyst i gael chydig o haul a chicio pêl mewn gwlad dramor.

**EFAN**

O....Reit...

MAE MALI'N TROI NÔL AT EI LLYFR A ROBBIE YN ROWLIO EI LYGAID AR EFAN CYSTAL Â DEUD - FEL 'NA MA' GWAWR! ALLAN AR EFAN YN GWYLIO GWAWR YN DARLLEN. DIDDORDEB. MAE ROBBIE'N GADAEL AC MAE EFAN MAE'N MYND I EISTEDD AT GWAWR

**EFAN**

Hei...

HWN ETO!

**GWAWR**

Ti ar goll ne rwbath?

**EFAN**

Na, isho deud sori .......os o'n i'n swnio fel...

**GWAWR**

Pen bach?!

**EFAN**

Wel. Ia... Ysgol newydd a ballu...

EFAN YN MEDDWL Y BYDD DANGOS CHYDIG O SWILDOD YN CREU ARGRAFF WELL AR GWAWR.

**EFAN**

Roedd Dad 'di trefnu'r gwylia ers oes. A wel, dw i yn poeni am yr amgylchedd sdi...

MALI'N DERBYN YR ESBONIAD YN RASLON.

**GWAWR**

Falch o glywed, ond fasa peidio teithio o gwbwl yn well wrth gwrs...

**EFAN**

Ti 'rioed 'di bod ar wylia 'lly? Ar awyren?

MALI'N GWENU CYN RHOI'R LLYFR I LAWR (DO!) OND EFAN ISIO CADW SYLW GWAWR.

**EFAN**

(YN EDRYCH AR EI AMSERLEN)

Y, ti'n gwbod lle ma' 'stafell 2B?

**GWAWR**

Gei di ddod efo fi rwan. Dwi drws nesa'n cael Cymraeg, gwaetha'r modd.

**EFAN**

Ti'm yn lico fo?

**GWAWR**

Licio llenyddiaeth, ddim yn licio gramadeg!

**EFAN**

Hm, gweld dim bai arna chdi.

**GWAWR**

Fyswn i'n neud rwbath i osgoi cystrawen am awr...

**EFAN**
(YN GWENU)

Unrhywbeth..?

GWAWR YN AMLWG YN MEDDWL FOD RHYW DOUBLE ENTENDRE YN EI SYLW.

**GWAWR**

Be?!

CYN I GWAWR FEDRU YMATEB MAE EFAN YN MALU GWYDR LARWM TÂN, SY'N DECHRAU SEINIO'N AFLAFAR. MAE'N RHOI GWÊN FAWR DDIREIDUS I GWAWR CYN GWEIDDI.

**EFAN**

Tân... tân!

MAE'N BRYSIO LAWR Y CORIDOR. ALLAN AR MALI'N GEGRWTH.

**GOLYGFA 2**

**MEWN - YSGOL (YSTAFELL CHWECHED) - DYDD**

(GWAWR, EFAN)

EFAN Â'I DRAED I FYNY'N CHWARAE RHYW GÊM AR EI FFÔN. GWELWN MALI'N DOD I MEWN I'R YSTAFELL. MAE HI'N GWELD EFAN AC YN GWENU CYN CYMRYD ANADL DDOFN A MENTRO DRAW.

**GWAWR**

Hei...

EFAN YN EDRYCH FYNY A DIFFODD EI FFÔN YN SYTH.

**EFAN**

Helo helo...

**GWAWR**

Yli... arna fi ymddiheuriad i chdi... ymddiheuriad mawr!

**EFAN**
(YN GWENU)

O ia... be' ti 'di neud 'lly?

**GWAWR**

Dwi mor sori, do'n i'm yn bwriadu neud ond doedd gin i'm dewis... wir... *

MAE EFAN YN DECHRA GWINGO, MAE'N AMLWG FOD GWAWR YN TEIMLO'N OFNADWY.

**EFAN**

G'neud be'?

**GWAWR**
(YN CYMRYD ANADL DDOFN)

O'dd Mam yn holi fi'n dwll neithiwr am y larwm tân...

**EFAN**

Dy fam?

**GWAWR**

Ia. Elen Edwards...

**EFAN**

Y pennaeth? Ydi hi'n fam i chdi?!

GWÊN EFAN YN LLITHRO.

**GWAWR**

Yndi... Yli, nath hi fygwth canslo dawns y chweched os nag o'n i'n deud be' o'n i'n wbod am y larwm...

**EFAN**

Reit... Nes di ddeud ?

**GWAWR**

Dwi'n sori, do'dd gin i'm dewis. Oedd hi'n gwbod mod i'n deud celwydd...

**EFAN**

O'dd hi'n flin?

**GWAWR**

O....Mor flin. Deud y dylia disgyblion y chweched fod yn gyfrifol a ballu... Ydi hi wedi bod yn chwilio amdana chdi?

**EFAN**

Na...

**GWAWR**

O, mae'n rhaid bo' hi'n brysur bore 'ma. Dwi mor sori Efan.

MAE MALI'N GADAEL. ALLAN AR EFAN YN EBYCHU - EI DRIC HEB GREU'R ARGRAFF ROEDD O WEDI OBEITHIO.

**GOLYGFA 4**

**ALLAN - TY PIZZA - DYDD**

**EFAN, GWAWR, JASON**

**GWAWR**

Chdi eto!

**EFAN**

Dwi jyst isho gwbod un peth...

**GWAWR**

Be'?

**EFAN**

Pam nes di'm deud wrth dy fam am y larwm tân? *

**GWAWR**

Dwi'm yn achwyn ar bobol.

**EFAN**

Do'n na'm rheswm arall?

**GWAWR**

Fel be'?

**EFAN**

Bo' chdi'n licio fi?

MAE EFAN YN GWENU FEL GIÂT. MALI'N TUCHAN.

**GWAWR**
(YN SARCASTIC)
O yndw, ti 'di g'neud i fi sylweddoli bod 'na ffasiwn beth â love at first sight!

**EFAN**

Mae'n neud synnwyr i fi! *

**GWAWR**
(YN WFFTIO)

O plis!

EFAN YN CHWERTHIN, DAW JASON ALLAN AC AT BWRDD GWAWR AC EFAN.

**JASON**
(TYNNU AR GWAWR)

Pwy ydi dy ffrind di?

**GWAWR**
(ANFODLON)

"Ffrind" yn pwsio hi., Jason... dyma Efan. Newydd yn yr ysgol...

**JASON**

Newydd? Cwmsar newydd 'lly! Ti'n licio pizzas boi ? Pwy sy' ddim 'de? Bob dim yn ffresh yma 'sti a lot o ddewis 'de... yn cynnwys caws vegan...

**EFAN**
(ROWLIO'I LYGAID)

Dw i'm yn gwbod pam bod vegans isio bob dim mae nhw'n fwyta edrych fatha rhywbeth mae pobol sy'n byta cig yn f'yta?! Os 'di sosejis a byrgyrs mor ddrwg, pam mae isio gwneud bwyd vegan edrych yr un fath? *

**JASON**

Nesh i'm meddwl am hynna... cwestiwn teg... GWAWR?

JASON YN TROI I EDRYCH AT MALI'N DDISGWYLGAR.

**GWAWR**

Dim siâp y peth sy'n bwysig ond ei effaith ar yr amgylchedd a byd natur.

EFAN YN YSGWYD EI BEN.

**EFAN**

Hynna'n dipyn o broblem 'fyd dydi?

**GWAWR**

Yndi?

**EFAN**

Ti'n trio deud fod prosesu cig ffug yn digwydd heb unrhyw ddefnydd o ynni a llygredd? Mi ddarllenish i bod byrgyr cig ffug yn mynd drwy dair proses yn fwy na byrgyr go iawn, all hynna ddim bod yn dda i'r 'fam ddaear', na allith?

JASON YN AMLWG YN TRIO PROSESU'R WYBODAETH.

**JASON**

Be ti'n feddwl o hynna 'ta GWAWR?

**GWAWR**

'Dw i'n meddwl bod raid i fi fynd adra.

MALI'N GADAEL YN EITHAF DI-SERCH.

**JASON**

Be gymri di 'ta?

EFAN YN DAL I WYLIO MALI'N GADAEL.

**EFAN**

(YN DDIGON UCHEL I GWAWR GLYWED)

Meat feast, plis, hefo portion ychwanegol o gig.